



Yr Arholwr

Croeso i'r rhifyn hwn o **Yr Arholwr**, cylchlythyr Cymwysterau Cymru ar gyfer cyrrff dyfarnu. Ein bwriad yw cyhoeddi'r cylchlythyr newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein gwaith.

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer yr hyn i'w gynnwys yn y dyfodol, hoffem glywed oddi wrthyh.

Mae croeso i chi anfon e-bost i cyfathrebu@cymwysteraucymru.org gyda'ch syniadau.

Dyddiad i'r dyddiaduron: Fforwm Cyrff Dyfarnu 2019

Cynhelir Fforwm Cyrff Dyfarnu eleni ar **ddydd Mawrth 10 Rhagfyr**, yng Ngwesty'r Marriott yng Nghaerdydd. Mae'r digwyddiad yn rhoi cyfle i chi rwydweithio, dysgu rhagor am ddatblygiadau ym maes rheoleiddio a diwygio yng Nghymru a rhoi adborth i ni. Byddwn yn anfon gwahoddiadau allan yn fuan, ond yn y cyfamser, gofynnir i chi gadw'r dyddiad.



Diweddariad ar Ddatganiad Cydymffurfiaeth 2019

Cyflwyno ar-lein – problemau technegol

Nid oes modd cael gafael ar Ddatganiad Cydymffurfiaeth 2019 drwy gronfa ddata QiW (ar 14 Mehefin) o hyd oherwydd problemau technegol. Rydym yn gweithio'n galed i ddatrys y problemau hyn ac yn ddiolchgar i chi am eich amynedd yn ystod y cyfnod hwn.

Er mwyn atal unrhyw oedi diangen wrth i gyrrff dyfarnu gasglu eu tystiolaeth ar gyfer y gwaith a gyflwynwyd eleni, rydym wedi anfon e-bost at yr holl swyddogion cyfrifol, yn nodi'r llinellau ymholi ar gyfer 2019. Er mwyn gwneud datganiad o ddiffyg cydymffurfiaeth, mae'n ofynnol i chi ddilyn yr un broses â'r llynedd. Dylech ddatgan achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â phob is-amod a lanlwytho cynllun gweithredu sy'n nodi'r camau yr ydych yn cynnig eu cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â phob is-amod, yn ogystal â'r amserlenni ar gyfer gwneud hynny.

Amod H2

Rydym wedi cael rhywfaint o ymholiadau gan gyrrff dyfarnu am ein disgwyliadau o ran cofnodi cydymffurfiaeth ag Amod H2 yn

natganiad cydymffurfiaeth eleni yn dilyn y cyngor a gafwyd gan Ofqual.

Nid ydym yn gofyn i gyrff dyfarnu ddatgan achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth ag Amod H2 eleni ar sail y defnydd o Statws Hawlio Uniongyrchol ('DCS'). Rydym yn defnyddio'r un dull gweithredu â'r blynyddoedd blaenorol. Hynny yw, os nad yw corff dyfarnu yn credu bod ganddo fesurau sicrhau ansawdd effeithiol ar waith ar gyfer penderfyniadau a wneir gan ganolfannau, yna dylid datgan achos o ddiffyg cydymffurfiaeth.

Rydym yn deall efallai y byddai'n well gan rai cyrff dyfarnu nodi'r un achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth yn y datganiadau a gyflwynir ganddynt i'r holl reoleiddwyr ac felly gallant roi gwybod i ni am achos o ddiffyg cydymffurfiaeth ag Amod H2 a nodi 'DCS' fel y rheswm. Yn yr achos hwn, ni fyddwn yn gofyn i'r corff dyfarnu gwblhau cynllun gweithredu, ac ni fyddwn yn gwneud gwaith dilynol o ran y datganiad o ddiffyg cydymffurfiaeth ag Amod H2.

Byddwn yn ystyried canlyniadau ymgynghoriad Ofqual cyn penderfynu ar y newidiadau sydd eu hangen ar gyfer ein Hamodau Cydnabod Safonol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill ynglŷn â'r uchod, cysylltwch â ni yn datganiadcydymffurfiaeth@cymwysteraucymru.org

Syniadau ar gyfer cwricwlwm y dyfodol

Bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno o 2022, sy'n golygu ein bod yn meddwl ymlaen i'r cymwysterau a gynigir i bobl 14-16 oed yn y dyfodol. Rydym yn ystyried diben y cymwysterau a sut y gallant gyd-fynd â'r cwricwlwm, a byddwn yn lansio ein hymgyngoriad cyntaf yn yr hydref. Bydd hefyd ystod o ymgynghoriadau eraill wrth i syniadaeth ddatblygu, gan gynnwys agweddau technegol.

Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn edrych ar y berthynas rhwng y cymwysterau dynodedig a chymeradwy, a'r angen am ddarpariaeth ddwyieithog i gyd-fynd â'r gofynion cynyddol yng Nghymru.

Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein syniadau ar adran cwricwlwm ein [gwefan](#).

Gohebiaeth a chyhoeddiadau diweddar

[Llythyr at Swyddogion Cyfrifol ynghylch Datganiad Cydymffurfiaeth 2019](#) (24 Mai 2019)

[Adroddiad ar Fonitro Cymwysterau Diogelwch Bwyd yng Nghymru](#) (23 Mai 2019)

I danysgrifio i'r rhestr bost ar gyfer **Yr Arholwr**, cliciwch [yma](#).

Rydych yn derbyn y cylchlythyr hwn fel prif gyswllt mewn sefyliad rhanddeiliaid. Nodwch ein bod yn cadw eich manylion cyswllt ar ein systemau o dan y sail gyfreithiol o brosesu er budd y cyhoedd, ac yn unol â'n swyddogaethau statudol o dan adran 46 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. I gael rhagor o fanylion, cyfeiriwch at ein [hysbysiad preifatrwydd](#).



Hawlfraint © 2019 • Cymwysterau Cymru • Cedwir pob hawl.

Cysylltwch â ni:

cyfathrebu@cymwysteraucymru.org